Cymdeithas Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro

Dysgu ar Gyfer y Dyfodol

Rhaglen Hyfforddiant Sector Gwirfoddol

Ebrill - Gorffennaf 2009

Rhaglen Haf PAVS
o gyrsiau,
digwyddiadau a
gweithdai

Rhaglen Hyfforddiant Haf 2009
Eich golwg sydyn ar yr hyn sy'n digwydd!

Enw'r Cwrs	Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Cod Cwrs
Llywodraethu*	Canolfan Gweithredu Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), Hwlffordd	29 Ebrill 10yb-1yh	**5b**
Gofalu am eich mudiad*	PAVS, Hwlffordd	2 Mehefin 10yb-1yh	**2a**
Sgiliau cyfathrebu effeithiol*	PAVS, Hwlffordd	10 Mehefin 10yb-4yh	**3a**
Sut i ddatblygu Menter Wirfoddol	PAVS, Hwlffordd	16 Mehefin 10yb-4yh	**4e**
Datblygu ac ysgrifennu strategaeth gyfathrebu*	PAVS, Hwlffordd	18 Mehefin 9.30yb-12.30yh	**10a**
Cynhyrchu adroddiad blynyddol*	PAVS, Hwlffordd	18 Mehefin 1.00yh-4.00yh	**10f**
Cyflwyniadau Effeithiol	PAVS, Hwlffordd	23 Mehefin 10yb-4yh	**3e**
Gwella eich Cyfarfodydd	PAVS, Hwlffordd	1 Gorffennaf 10yb-1yh	**3f**
Rhoi a chodi arian gan y cyhoedd*	PAVS, Hwlffordd	14 Gorffennaf 10yb-2yh	**7f**

*Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru

Rhaglen newydd genedlaethol o hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol yw Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, wedi'u darparu trwy bartneriaeth rhwng cynghorau gwirfoddol sirol lleol (CGS), canolfannau gwirfoddol (CG) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Cefnogir y cyrsiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan y Cytundeb Partneriaeth.

Rhedeg eich mudiad

Felly, rydych yn gwybod beth yr ydych am ei wneud a ble y mae angen i chi ddechrau, ond beth am drefniadau ffurfiol llywodraethu, cynllunio a mesur llwyddiant yr hyn a wneir gennych?
Bydd y sesiynau hyfforddi yn 'rhedeg eich mudiad' yn rhoi cyflwyniad i chi i'r meysydd hyn i'ch cynorthwyo i sicrhau eich bod yn cychwyn yn y ffordd iawn.

Gofalu am eich mudiad 2 Mehefin
Tiwtor: Vanessa John 10.00yb-1.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr:
• yn deall yr angen i ddiogelu aelodau
• yn deall dyletswyddau cyfreithiol eu mudiad
• yn gallu dod o hyd i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i lunio polisïau priodol
• yn deall y rhwystrau posibl o ran cymryd rhan yn eu mudiad, a sut i fynd i'r afael â hwy

Cod Cwrs: 2a

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£55	Cyfradd B	£10	Cyfradd C	£7.50

Gweithio gydag eraill

Y mae adeiladu rhwydweithiau, creu partneriaethau a pherswadio eraill o werth yr hyn y mae eich mudiad yn ei wneud yn rhan o'r byd yr ydym yn gweithio ynddo ac yn hanfodol i lwyddiant yr hyn a wnawn.
Bydd y sesiynau hyfforddi yn 'gweithio gydag eraill' yn gymorth i adeiladu hyder yn eich sgiliau cyfathrebu, yn caniatáu i chi ystyried ffyrdd o drafod a dylanwadu ar eraill a rhoi cyflwyniad ar sut y mae rhwydweithiau, cynghreiriau a chonsortia'n gweithio ar draws y sector gwirfoddol a statudol.

Sgiliau cyfathrebu effeithiol 10 Mehefin
Tiwtor: Sue Leonard a Louise Wilkinson 10.00yb-4.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr:
• yn deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol
• wedi ystyried y gwahanol ffyrdd sydd gennym o gyfathrebu
• yn gwybod sut i wrando'n astud ar eraill
• wedi datblygu sgiliau holi effeithiol
• wedi dysgu sut i roi cyfle i eraill gyfrannu syniadau a barn i'r drafodaeth
• wedi ystyried sut orau i baratoi ar gyfer cyfarfodydd er mwyn cyfleu unrhyw negeseuon a barn yn glir a chryno

Cod Cwrs: 3a

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£110	Cyfradd B	£20	Cyfradd C	£15

Cyflwyniadau Effeithiol 23 Mehefin
Tiwtor: Sue Leonard 10.00yb-4.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y cwrs bydd cyfranogwyr yn medru:
- paratoi cyflwyniad effeithiol wedi'i strwythuro'n dda
- dynodi ffyrdd o ddefnyddio cynorthwyon gweledol i gefnogi'r cyflwyniad
- delio â chwestiynau o'r gynulleidfa
- ystyried defnydd o gyfathrebu ar wahân i'r dull llafar
- defnyddio amrediad o dechnegau ymlacio i reoli'r nerfau

Mae hwn yn gwrs achrededig RhCA, er efallai y bydd yn ofynnol i chwi wneud peth gwaith ychwanegol y tu hwnt i'r sesiwn. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael tystysgrif RhCA, yna, cysylltwch â ni ar unwaith i gael mwy o wybodaeth.

Cod Cwrs: 3e

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£110	Cyfradd B	£20	Cyfradd C	£15

Gwella eich Cyfarfodydd 1 Gorffennaf
Tiwtor: Vanessa John 10.00yb-1.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y cwrs bydd cyfranogwyr yn medru:
- deall amcan cyfarfodydd a swyddogaeth cyfranogwyr
- paratoi'n briodol ar gyfer cyfarfodydd
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gadw'r cyfarfod ar y trywydd
- cofnodi penderfyniadau a gweithrediadau

Cod Cwrs: 3f

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£55	Cyfradd B	£10	Cyfradd C	£7.50

Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli wrth galon yr hyn a wnawn. Bydd y sesiynau yn 'gwirfoddoli' yn rhoi i unigolion a mudiadau sy'n trefnu a rheoli gwirfoddolwyr gyflwyniad i wahanol agweddau ymgysylltu â gwirfoddolwyr - recriwtio, dethol, cefnogi ac arweiniad, asesu risg, polisïau gwirfoddoli ac enghreifftiau o arfer gorau.

Sut i ddatblygu Menter Wirfoddol 16 Mehefin
Tiwtor: Caroline Graham 10.00yb-4.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Bydd y gweithdy undydd yn edrych ar ddatblygu arfer da mewn mentrau gwirfoddol newydd a chyfredol. Bydd yn darparu gwybodaeth a chyngor ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i redeg rhaglen wirfoddol broffesiynol sy'n cynnwys polisïau trefniadaeth sy'n berthnasol i wirfoddoli, marchnata, recriwtio, sefydlu, hyfforddi, cefnogi a goruchwylio.
Cyfeiria pob adran at raddau gwahanol o reoli gwirfoddol gan dynnu sylw at faterion amrywiol sy'n ymwneud â recriwtio gwirfoddolwyr.

Cod Cwrs: 4e

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£110	Cyfradd B	£20	Cyfradd C	£15

Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli

Y mae bod yn ymddiriedolwr neu aelod o bwyllgor yn gyfrifoldeb difrifol ac yn un lle y mae'n ofynnol i unigolion chwarae rhan weithredol yn y gwaith o arwain a llunio mudiad gwirfoddol.
Mae'r sesiynau yn 'ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli' yn amlinellu beth yn union y mae bod yn ymddiriedolwr neu aelod o bwyllgor yn ei olygu, rolau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr fel unigolion ac ar y cyd, a phwysigrwydd cael pobl addas i wneud y gwaith – pobl y bydd angen iddynt sicrhau bod popeth yn ddiogel ac yn gyfreithiol, cefnogi'r staff cyflogedig a gwirfoddolwyr l wneud y gwaith a gwneud penderfyniadau mawr ynghylch y dyfodol.

Llywodraethu 29 Ebrill
Tiwtor: Vanessa John 10.00yb-1.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr:
• yn deall cysyniad llywodraethu
• yn ymwybodol o egwyddorion allweddol llywodraethu
• yn deall sut y mae ymddiriedolwyr fel bwrdd yn gyfrifol ar y cyd ac yn atebol am sicrhau bod y mudiad yn cael ei redeg yn dda, yn ddiddyled ac yn cydymffurfio â'i holl rwymedigaethau
• yn ymwybodol o ddogfennau llywodraethu allweddol

Cod Cwrs: 5b

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£55	Cyfradd B	£10	Cyfradd C	£7.50

Mae nifer o gyrsiau ar gael ar gais, i ymddiriedolwyr, cysylltwch â PAVS am ragor o wybodaeth.

Dod o hyd i arian a'i gael

Mae'r sesiynau yn 'dod o hyd i arian a'i gael' wedi'u llunio i ddarparu gwybodaeth ymarferol i fudiadau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes ar sut i ddatblygu agwedd o ariannu cynaliadwy tuag at eu gwaith.

Rhoi a chodi arian gan y cyhoedd 14 Gorffennaf
Tiwtor: Lorna Unwin 10.00yb-1.00yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr:
• yn dysgu sut i fanteisio ar roddion treth-effeithiol a rhoddion
• wedi cael cyflwyniad i gyfraith ac ymarfer codi arian
• wedi archwilio'r amrywiol opsiynau ar gyfer codi arian gan y cyhoedd

Cod Cwrs: 7f

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£55	Cyfradd B	£10	Cyfradd C	£7.50

Peidiwch ag anghofio cadw llygad ar wefan PAVS www.pavs.org.uk . Caiff y tudalennau hyfforddiant eu diweddaru gyda manylion cyrsiau a allai fod o ddiddordeb i'ch grŵp chi.

Hyrwyddo a marchnata

Mor aml y byddwn yn sefydlu gwasanaeth neu brosiect gwych, ac yna'n anghofio dweud wrth bobl eraill amdano! Mae'r sesiynau ar 'hyrwyddo a marchnata' yn edrych ar wahanol agweddau cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a defnyddio sianelaucyfathrebu i'ch cynorthwyo gyda ffyrdd o 'chwythu utgorn eich mudiad' a rhoi gwybod i eraill am y gwaith a wneir gennych a'r gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud.

Datblygu ac ysgrifennu strategaeth gyfathrebu 18 Mehefin
Tiwtor: Louise Wilkinson 9.30yb-12.30yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr:
• wedi diffinio pwrpas strategaeth gyfathrebu
• wedi deall prif elfennau a chynnwys penodol strategaeth gyfathrebu

Cod Cwrs: 10a

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£55	Cyfradd B	£10	Cyfradd C	£7.50

Cynhyrchu adroddiad blynyddol 18 Mehefin
Tiwtor: Louise Wilkinson 1.30yh-4.30yh
Lleoliad: PAVS, Hwlffordd

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr:
• yn gwybod sut i gynllunio'r adroddiad blynyddol
• yn deall sut y gall adroddiad blynyddol weithio fel arf hyrwyddo i dynnu sylw at lwyddiannau'r mudiad

Cod Cwrs: 10f

Cost Cwrs:	Cyfradd A	£55	Cyfradd B	£10	Cyfradd C	£7.50

Bydd cinio ar gael os byddwch yn aros ar gyfer y ddau sesiwn.

Cyrsiau eraill

CAVO yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) ar gyfer Ceredigion. Amcanion CAVO yw hyrwyddo, cefnogi a chydlynu gwaith y sector wirfoddol yng Ngheredigion, gweithredu fel dolen rhwng y sectorau gwirfoddol a statudol a hyrwyddo ac annog arfer da. Lleolir y swyddfa yn Llanbed.

- Paratoi strategaeth codi arian gynaliadwy - 12 Mai
- Rolau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli - 23 Mehefin
- Trefnu pwyllgor – beth i'w wneud a phwy ddylai ei wneud? - 7 Gorffennaf
- Cyflwyniad i wirfoddoli - 10 Medi

Ffoniwch 01570 423232 i gysylltu â CAVO

Gŵyl addysg Sir Benfro

yn rhan o'r Wythnos addysg oedolion

Dewch mlân, dewch mlân, y Farchnad Ddysgu amdani
Marchnadfa Glanrafon, Hwlffordd
Dydd Sadwrn, 9 Mai, 2009 10 a.m.- 3 p.m.

Lansir Wythnos Dysgu Oedolion yn Sir Benfro trwy'r Farchnadfa Ddysgu hon. Gall ymwelwyr siopa am gyfleoedd dysgu newydd a blasu'r hyn a gynigir yn ystod gweddill Gŵyl Ddysgu Sir Benfro. Sesiynau crefft, gwneud cardiau, ffotograffiaeth ddigidol, Cymraeg, ymchwilio hanes eich teulu a chwisiau. Bydd digon yn digwydd felly peidiwch â cholli cyfle! Ac mae'r cyfan am ddim!

Ble ddysgoch chi hyn'na?
Neuadd Pater, Doc Penfro
Dydd Mawrth, 12 Mai, 2009 10 a.m.- 3 p.m.

Cyfle i ddysgu rhywbeth newydd am ddim, dim ond galw heibio, a rhoi cynnig arni! Ymhlith y sesiynau bydd arddangosfeydd crefft, gofalu am eich arian, gwneud gemwaith, darganfod Darwin, iaith y corff, pilates, teledu realiti, crefft siwgro a thynnu gwell lluniau.

Cysylltwch â Louise Wilkinson 01437 769422

Ble ddysgoch chi hyn'na?
Palas yr Esgob, Tyddewi
Dydd Mercher, 13 Mai, 2009 10 a.m. - 3.30 p.m.

Cyfle i ddysgu rhywbeth newydd yn awyrgylch hyfryd Palas yr Esgob. Trefnir yr achlysur hwn mewn partneriaeth â CADW a rhoddir mynediad am ddim i'r rheiny sy'n byw yn Sir Benfro fydd yn mynychu un neu fwy o'r sesiynau a nodir isod. Ymhlith y sesiynau bydd cadwraeth ar waith, ysgrifennu creadigol, celf gyda drychau, gwehyddu a nyddu traddodiadol, a Hanes Cymru (gan gynnwys Gerallt Gymro).

Cysylltwch â: Louise Wilkinson 01437 769422

Ydyn ni wedi anghofio rhywbeth? Oes yna gwrs hyfforddiant fyddech chi'n hoffi ei fynychu ond na fedrwch ei ganfod yn ein rhaglen?

OES? Wel, efallai y medrwn ni helpu hyd yn oed eto. Os gofynnir am y cwrs gan ddigon o bobl, yna, medrwn ei drefnu neu efallai y medrwn ddarparu'r hyfforddiant ar gyfer eich grŵp chi'n unig. Medrwn hefyd gyfeirio eich ymholiad i un o'n partneriaid o fewn Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro os bydd yr hyfforddiant fyddwch yn ei ddymuno y tu hwnt i'n cylch gwaith. Ffoniwch Louise Wilkinson ar 01437 769422 a **HOLWCH**!

Cyrsiau eraill yn Sir Benfro y byddai gennych efallai ddiddordeb ynddyn nhw...

Nodwch: **Nid** PAVS sy'n gyfrifol am y cyrsiau hyn, felly, er mwyn cadw lle, defnyddiwch y manylion cyswllt perthnasol a ddangosir isod.

Diwrnod Astudio Jas Arberth U3A - Dydd Mercher, 20 Mai '09
Gwesty Nant-y-ffin, Llandysilio
Gwahodda Arberth U3A aelodau a gwesteion U3A i fynychu Diwrnod Astudio Jas fydd yn cynnwys y byd-enwog Band Jas New Orleans Ken Colyer Legacy.
Yn ystod y bore bydd aelodau o'r band yn esbonio ac yn dangos y dechneg o chwarae jas traddodiadol heb gerddoriaeth ysgrifenedig. Sesiwn y prynhawn – perfformiad cyngerdd.
Pris – am raglen diwrnod llawn yn cynnwys cinio, te a choffi - £14 fesul person. Cadw lle* - trwy Tudor Thomas, 11 Beechwood Place, Arberth, SA67 7EE. Tel 01834 860434 E-bost t-j.t@tiscali.co.UK
*Cofiwch anfon amlen hunangyfeiriedig a stamp arni neu gyfeiriad e-bost os ydych am gadarnhad fod lle wedi'i gadw ar eich cyfer.

Wythnos Cynhalwyr 8 - 12 Mehefin 2009 - 'Cynhalwyr yw Arwyr Di-sôn amdanynt Sir Benfro'
Cynhelir Diwrnod Cynhalwyr ar ddydd Iau, Mehefin 11, 2009 yng Nghlwb Rygbi Hwlffordd. I gael rhagor o fanylion cysylltwch â Nicole van Schie, Gweithiwr Datblygu Cynhalwyr yn PAVS 01437 771196 / 769422 neu e-bostiwch Nicole.vanschie@pavs.org.uk
Bydd yna nifer o sioeau teithiol gydol yr wythnos ble fyddwch yn medru cael gafael ar beth gwybodaeth.

Cyrsiau Cymunedol AM DDIM – Pan na rowch chi gynnig ar ddysgu?
Amcan y prosiect STEP yw darparu cyrsiau cyflwyno yn y Gymuned i annog dysgu a chynigir llawer o gyrsiau yn amrywio o Greu Cardiau a Chrefft Siwgro i Dechnoleg Gwybodaeth a Ffitrwydd. Bydd dau Fentor Cyfarwyddo Oedolion ar gael i gynnig gwasanaeth diduedd i bob dysgwr wrth iddo gofrestru. Os bydd yna rwystrau'n eich atal rhag mynychu dosbarth, yna, gall sgwrs gyda'r Mentor Cyfarwyddo Oedolion gynorthwyo i ddatrys y sefyllfa. Gall fod yn bosib darparu cefnogaeth i'ch galluogi i fynychu cwrs a gall hyn fod o ran gofal plentyn neu ofal oedolyn hyn neu gall fod yn anhawster teithio.

Os am fwy o wybodaeth, yna, cysylltwch â: Emma James neu Jill George
Mentoriaid Cyfarwyddo Oedolion Prosiect Step 01437 753 191 neu
e-bost community@pembs.ac.uk gwybodaeth hefyd ar gael yn: www.pembs.ac.uk/step

Canolbwynt Sgiliau a Chymuned – Datblygu'r Adnodd Sgiliau Gwledig
Bydd PLANED mewn partneriaeth a Choleg Sir Benfro ac asiantaethau eraill yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant byr. Cafodd y rhain eu dynodi gan gymunedau lleol yn angenrheidiol i gyflenwi bylchau mewn sgiliau lleol a chynaladwyedd y gymuned. Gall myfyrwyr llwyddiannus ddewis naill ai symud ymlaen at astudio achrededig yn y coleg, cyflogaeth amser llawn/hunangyflogaeth neu wirfoddoli yn y gymuned.

Cynigir nifer o gyrsiau ac estynnir croeso i bawb. Os am fwy o wybodaeth, yna, cysylltwch â Sarah Diment yn PLANED ar 01834 862107 E-bost sarahd@planed.org.uk neu Liz Thomas ar 01834 862113 E-bost: lizt@planed.org.uk

Hyfforddiant MiDAS
Mae Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrwyr Bws Mini wedi'i seilio ar arfer da ac wedi'i lunio i wella diogelwch ar fysiau mini yn ogystal â hyrwyddo gwasanaeth a chyffyrddusrwydd teithwyr. Cynigir hyfforddiant MiDAS gan PACTO sy'n cynnwys tystysgrif a llawlyfr. Hyfforddiant gloywi ar gael hefyd. Cynhelir sesiynau hyfforddi ar draws y sir
Os am ragor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, yna, cysylltwch â Cliff Richmond ar 01994 240772 neu e-bostio Richmondc@btinternet.com

Er mwyn cadw lle ar eich cwrs (cyrsiau) o'ch dewis, yr oll sy angen i chi ei wneud yw llenwi a dychwelyd y ffurflen cadw lle at "Hyfforddiant, PAVS, 36 Stryd Fawr, Hwlffordd, SA61 2DA", - neu defnyddiwch yr amlen RHADBOST amgaeedig - ynghyd â'ch siec wedi'i gwneud yn daladwy i PAVS am y cyfanswm sy'n ddyledus. Ni fedrwn gadw lle heb enw'r person fydd yn mynychu.

Mae'n hawdd cyrraedd a mynd i mewn i bob lleoliad ac anfonir cyfarwyddiadau ynghyd â'r nodyn fydd yn cadarnhau cadw eich lle ar y cwrs. Wedi i chi dalu fe fydd eich lle wedi'i gadw a byddwch yn cael nodyn atgoffa tuag wythnos cyn cynnal y cwrs. Mae'r rhaglenni cwrs yn cynnwys seibiannau cyson ar gyfer te/coffi a darparir cinio pan gynhelir gweithdy diwrnod. Nodwch fod y mwyafrif o gyrsiau yn caniatáu **mwyafswm o ddau le fesul mudiad,** ond os oes gennych chwech neu fwy o bobl yn dangos diddordeb, mae'n bosib y medrwn drefnu'r cwrs yn benodol ar gyfer eich grŵp, felly, cysylltwch â ni.

Ffioedd Cwrs[1]

Ceir tri chyfradd gwahanol ar gyfer ffioedd cwrs:

Cyfradd A	Sector cyhoeddus/preifat
Cyfradd B	Grwpiau/unigolion sector gwirfoddol (heb fod yn aelodau)/ Aelodau Cysylltiol PAVS
Cyfradd C	Aelodau Cyflawn PAVS/Cynhalwyr yn Sir Benfro

Os nad yw eich mudiad yn aelod llawn o PAVS, pam na wnewch chi ymuno nawr a chymryd mantais o'r ffioedd cwrs rhatach? Ffoniwch 01437 769422 i gael pecyn aelodaeth.

Yn anffodus oherwydd y nifer fawr o gansladau hwyr rydym yn eu derbyn mae'n rhaid i ni gyflwyno system cadw lle llymach. Ni fedrwn mwyach dderbyn ceisiadau cadw lle oni bai fod gennym y manylion llawn am y rheini fydd yn mynychu. Rhaid wrth daliad llawn cyn bod y cwrs yn cychwyn hefyd. Byddwn yn fodlon anfon infois atoch dim ond i chi ofyn.

Dalier sylw:
Rydym yn cadw'r hawl i godi ffi gweinyddu hwyr o hyd at £40 am beidio â mynychu cwrs PAVS. Gwneir hyn ar ôl i nifer o gyfranogwyr dynnu nôl ar y funud olaf neu beidio mynychu ar y diwrnod, sy'n effeithio ar effeithiolrwydd y cwrs. Os nad ydych yn medru mynychu, yna, anfonwch rywun arall yn eich lle neu gadewch i ni wybod mewn da bryd cyn i'r cwrs ddechrau.

[1] Ad-delir ffioedd cwrs yn llawn, neu rhoddir tocyn taleb, os bydd rhaid canslo'r cwrs am ryw reswm, ond ni fydd ffioedd cwrs yn cael eu had-dalu os ydych chi'n canslo ar fyr rybudd neu ddim yn troi fyny ar y diwrnod, ac efallai bydd rhaid codi ffi canslo.